**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

14 Gorffennaf 2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Annwyl Huw,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Diolch ichi am rannu copi o'ch adroddiad ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol uchod â ni. Fe welwch fod ein hadroddiad yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth a roddwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip mewn ymateb i'n llythyr, a gawsom ar 5 Gorffennaf. Ein gobaith oedd cael tystiolaeth yn fwy eang gan y Foneddiges Vera Baird ar y pwnc hwn, ond yn anffodus nid oedd hi mewn sefyllfa i gyfrannu y tro hwn. Nid oeddem, ychwaith, wedi gallu nodi dewis arall addas o fewn yr amserlenni a oedd ar gael i ni.

At hynny, roeddem o'r farn, gan fod sawl cymal yn dal i fod yn destun trafodaethau a negodi parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y byddai'n ddoeth aros am ganlyniad y trafodaethau hynny cyn dod i unrhyw gasgliadau pendant.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Gwn fod ein pwyllgorau'n rhannu awydd i wella canlyniadau i'r rheini sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, ac yn gobeithio y gallwn barhau i gydweithio yn hynny o beth yn y dyfodol.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru